

W/SERD CYMDEITHAS SIFIL



Ymchwilio Cymdeithas Sifil er budd Cymdeithas Sifil







Trosolwg

Un o ganolfannau ymchwil yr ESRC yw Cymdeithas Sifil WISERD, sy'n ymgymryd â rhaglen pum mlynedd o waith ymchwil aml-ddisgyblaethol perthnasol i bolisi, yn edrych ar y Gymdeithas Sifil yng Nghymru, yn y Deyrnas Gyfunol ac yn Rhyngwladol. Bydd gwaith ymchwil y ganolfan yn cynhyrchu tystiolaeth newydd ar natur newidiol y gymdeithas sifil yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Yn ogystal, bydd y rhaglen yn disgrifio ac yn egluro effaith newid cymdeithasol ar ffurfiau lleol o gymdeithas sifil a sefydliadau cymdeithas sifil; ac yn archwilio beth mae hyn yn ei olygu i les a chydlyniant cymdeithasol.

Mae'r Ganolfan yn cynnwys cyfres o dri ar hugain o brosiectau ymchwil, sy'n edrych ar bedwar prif faes thematig allweddol:

- Ardal, Cymuned a Chymdeithas Sifil
- Unigolion, Sefydliadau a Llywodraethu
- Llymder Economaidd, Menter Gymdeithasol ac Anghydraddoldeb
- Cenhedlaeth, Cwrs Bywyd a Chyfranogiad Cymdeithasol

Bydd y prosiectau yn edrych ar gyfres o bolisiâu ac ymarfer perthnasol sy'n effeithio ar y gymdeithas sifil yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys: addysg, gwirfoddoli, lles, heneiddio, llywodraethu ac amrywiaeth.

Mae Cymdeithas Sifil WISERD yn cynnwys cyd-ymchwilwyr o ddeuddeg o brifysgolion yn y Deyrnas Gyfunol yn ogystal â chydweithwyr rhyngwladol yn Ewrop, Gogledd America ac Awstralia. Mae'r Ganolfan hefyd yn gweithio mewn partneriaeth agos â chydweithwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat, polisi a'r trydydd sector.



Thema 1: Ardal, Cymuned a Chymdeithas Sifil

Arweinwyr Thema: Mike Woods (Prifysgol Aberystwyth) & Howard Davis (Prifysgol Bangor)

Mae Thema Un yn archwilio ailffurfweddu ac ailfynegi cymdeithas sifil leol yng nghyd-destun newid cymdeithasol ac economaidd cyfoes.

Pecyn gwaith 1.1: Ymchwilio i Gyfranogiad Dinesig yng Nghymru, mewn Lle a Thros Amser

Hydref 2014 – Medi 2017

Howard Davis a Robin Mann (Prifysgol Bangor)

Mae'r prosiect hwn yn archwilio'r profiadau o gyfranogi ar lefel leol a'r hyn maen nhw'n ei ddweud wrthym am batrymau symud newidiol mewn llefydd penodol yng Nghymru. Bydd y prosiect hefyd yn dadansoddi ymddiriedaeth mewn sefydliadau cymdeithasol, a sut mae hunaniaethau cymdeithasol ac anghydraddoldebau yn siapia cysylltiadau dinesig lleol.

Pecyn gwaith 1.2: Ailddiffinio Cymdeithas Sifil Leol mewn Oes o Gyd-Gysylltedd Byd-eang

Hydref 2016 – Medi 2018

Mike Woods (Prifysgol Aberystwyth) a Jon Anderson (Prifysgol Caerdydd)

Mae'r prosiect hwn yn archwilio sut mae tybiaethau ac arferion cymdeithas sifil leol wedi cael eu hymestyn a'u hailffurfweddu gan gyd-gysyllteddau byd-eang, gan gynnwys ailgyfeirio gweithgareddau cymdeithas sifil leol o ran materion a phryderon byd-eang, ac unigolion y tu allan i'r ardal leol yn cymryd rhan mewn cymdeithas sifil leol.



Pecyn gwaith 1.3: Ymfudwyr, Lleiafrifoedd ac Ymgysylltiad â Chymdeithas Sifil Leol

Hydref 2015 – Medi 2017

Rhys Dafydd Jones (Prifysgol Aberystwyth),
Stephen Drinkwater (Prifysgol Roehampton) ac
Andrew Thompson (Prifysgol De Cymru)

Mae'r prosiect hwn yn cyfuno methodolegau ymchwil meintiol ac ansoddol i archwilio cyfranogiad ymfudwyr Ewropeaidd o wledydd A8 mewn cymdeithas sifil leol.

Pecyn gwaith 1.4: Mannau o Leoliaeth Newydd: Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Datblygiad Economaidd yng Nghymru ac yn Lloegr

Mawrth 2015 – Chwefror 2018

Martin Jones, David Beel (Prifysgol Sheffield) ac
Ian Rees Jones (Prifysgol Caerdydd)

Mae'r prosiect hwn yn cynnal astudiaeth gymharol o randdeiliaid a chyfranogiad y gymdeithas sifil yn yr agenda Adeiladu Dinas-ranbarthau. Bydd y prosiect yn edrych yn benodol ar yr Adeiladwyr Dinas-ranbarth sydd ynghlwm â Phartneriaethau Menter Lleol, Bargeinion Dinas, Ardaloedd Menter a llywodraethu a datblygiad Dinas-ranbarthau yn gyffredinol.



Thema 2: Unigolion, Sefydliadau a Llywodraethu

Arweinydd Thema: Paul Chaney (Prifysgol Caerdydd)

Mae prosiectau Thema Dau yn defnyddio llywodraethu aml-lefel; damcaniaeth neo-sefydliadol a dulliau llunio polisi cyhoeddus is-wladol i archwilio datganoli a'r newid yn y berthynas rhwng unigolion a sefydliadau yn y gymdeithas sifil a'r wladwriaeth.

Pecyn gwaith 2.1: Addysg Uwch a'r Gymdeithas Sifil

Ebrill 2015 – Mawrth 2017

Gareth Rees, Chris Taylor a Ceryn Evans (Prifysgol Caerdydd)

Mae'r prosiect hwn yn archwilio'r berthynas rhwng cyfranogiad mewn addysg uwch ac ymgysylltiad mewn cymdeithas sifil ac yn edrych a yw graddedigion prifysgol yn chwarae rhan amlwg yn sefydliadau'r gymdeithas sifil. Mae'r ymchwil hefyd yn archwilio i ba raddau y mae'r newid sefydliadol o system addysg uwch elitaidd i system dorfol wedi effeithio ar y rolau sydd gan raddedigion i'w chwarae mewn cymdeithas sifil.

Pecyn gwaith 2.2: Tiriogaethedd ac Ymgysylltiad y Trydydd Sector mewn Llundain Polisiâu a Darpariaeth Lles

Gorffennaf 2016 – Mehefin 2018

Paul Chaney a Daniel Wincott (Prifysgol Caerdydd)

Mae'r prosiect hwn yn ymchwilio i'r ffordd mae gweinyddiaeth diriogaethol y trydydd sector yng Nghymru wedi newid yn y cyfnod ers yr ail ryfel byd mewn ymateb i batrymau a phrosesau llywodraethu sy'n newid, gan ddadansoddi'r ffyrdd y mae hyn wedi effeithio ar y modd mae sefydliadau'r trydydd sector wedi siapio a chyflwyno lles.



Pecyn gwaith 2.3: Addysg, iaith a Hunaniaeth

Ebrill 2016 – Mawrth 2019

Rhys Jones ac Elin Royles (Prifysgol Aberystwyth),
Lindsay Paterson a Fiona O'Hanlon (Prifysgol Caeredin)

Mae'r prosiect hwn yn ymchwilio i'r mathau o gyfranogiad dinesig a chysyniadau iaith a hunaniaeth sy'n cael eu hyrwyddo yn y system addysg statudol, ac mewn sefydliadau cymdeithas sifil sy'n gweithio gyda phobl ifanc yng Nghymru ac yn yr Alban.

Pecyn gwaith 2.4: Meithrin Ymddiriedaeth? Sefydliadau a Rhyngweithiau Llywodraethu Aml-Lefel yn y Deyrnas Gyfunol, yr Almaen a Ffrainc

Hydref 2016 – Medi 2019

Alistair Cole ac Ian Stafford (Prifysgol Caerdydd)

Mae'r prosiect hwn yn defnyddio dulliau cymysg i archwilio rôl ymddiriedaeth a thryloywder yng nghyd-destun llywodraethu aml-lefel yn Ewrop, gan edrych ar y graddau y mae cydgyfeirio ledled Ewrop mewn normau ymddiriedaeth wedi dod i'r amlwg a'i berthynas â thryloywder. Bydd y prosiect yn edrych ar y gydadwaith rhwng ymddiriedaeth a thryloywder rhwng tair o wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, ac oddi mewn iddynt: y Deyrnas Gyfunol, Ffrainc a'r Almaen.



Thema 3: Llymder Economaidd, Menter Gymdeithasol ac Anghydraddoldeb

Arweinydd Thema: David Blackaby (Prifysgol Abertawe)

Mae Thema Tri yn archwilio'r rhyngberthynas rhwng agweddau ar gymdeithas sifil a'r economi ar adeg o lymder drwy archwilio'r berthynas rhwng tuddiadau economaidd ac agweddau pwysig ar gymdeithas sifil, gan gynnwys; lefelau o fenter cymdeithasol, aelodaeth o undebau llafur a chyfranogiad mewn bywyd cysylltiadol, mynediad at wasanaethau cymunedol, cydlyniant cymdeithasol a lles ar raddfeydd lleol.

Pecyn gwaith 3.1: Menter Gymdeithasol yng Nghymru, y Deyrnas Gyfunol ac Ewrop

Hydref 2014 – Medi 2016

Catherine Robinson (Prifysgol Caint) a Philip Murphy (Prifysgol Abertawe)

Mae'r prosiect hwn yn defnyddio ystod o ddulliau econometrig i ddadansoddi gweithgaredd entrepreneuriaidd, y twf mewn mentrau cymdeithasol a rôl newidiol y trydydd sector. Mae'r gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar gamau cynnar gweithgaredd entrepreneuriaidd a hefyd ar oroesiad a pherfformiad busnesau bach yng Nghymru (a'r tu hwnt) fel modd o gyfrannu at dwf economaidd ac yn fwy eang, at les.

Pecyn gwaith 3.2: Goblygiadau Amrywiaeth Gofodol a Thymhorol wrth Ddarparu Gwasanaeth ar gyfer Anghydraddoldebau mewn Canlyniadau Cymdeithasol

Ebrill 2016 – Mawrth 2018

Gary Higgs, Mitch Langford (Prifysgol De Cymru) a Scott Orford (Prifysgol Caerdydd)

Mae'r prosiect hwn yn dadansoddi ffynonellau eilaidd cyfredol o ddata meintiol er mwyn ymchwilio i lefelau o gyfalaf cymdeithasol mewn cymunedau mewn perthynas â newid yn lefel y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus allweddol.



Pecyn gwaith 3.3: Aelodaeth o Undebau Llafur, Bywyd Cysylltiadol a Lles

Ebrill 2015 – Mawrth 2018

Rhys Davies, Steve Davies (Prifysgol Caerdydd) ac Alex Bryson (Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol)

Mae'r prosiect hwn yn defnyddio dulliau cymysg i ymchwilio i'r rhesymau y tu ôl i'r tueddiadau a'r amrywiadau daearyddol o ran aelodaeth o undebau llafur. Mae'r prosiect hefyd yn archwilio sut mae undebau llafur yn cyfrannu at agweddau eraill ar gyfalaf cymdeithasol.

Pecyn gwaith 3.4: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Darpariaeth Lles y Trydydd Sector

Ebrill 2016 – Mawrth 2018

Nick Johns (Prifysgol Caerdydd),
Stephen Drinkwater (Prifysgol Roehampton)
ac Alison Green (Prifysgol Glyndŵr)

Mae'r prosiect hwn yn defnyddio dulliau cymysg i ymchwilio i effaith darpariaeth lles sy'n seiliedig ar ffydd ar gydlyniant cymdeithasol.

Pecyn gwaith 3.5: Lles, Amddifadedd a Chydlyniant Cymdeithasol

Hydref 2015 – Medi 2017

David Blackaby, Philip Murphy (Prifysgol Abertawe) a
Melanie Jones (Prifysgol Sheffield)

Mae'r prosiect hwn yn defnyddio ystod o dechnegau econometrig i ymchwilio i natur y berthynas rhwng lles goddrychol unigol, nodweddion unigol ac yn y cartref, amgylchiadau gwaith/bywyd, ac ystod o ddangosyddion sy'n ymwneud â mesur cydlyniant cymdeithasol a chymdeithas sifil.



Thema 4: Cenedlaeth, Cwrs Bywyd a Chyfranogiad Cymdeithasol

Arweinydd Thema: Sally Power (Prifysgol Caerdydd)

Mae Thema Pedwar yn mynd i'r afael â'r trosglwyddiad rhwng cenedlaethau o ran gwerthoedd, credoau a gwahanol fathau o gyfalaf cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd a sut mae'r rhain yn perthyn i gymdeithas sifil; yn ymchwilio i amrywiadau mewn cyfranogiad cymdeithasol a chanfyddiadau ymysg cenedlaethau a rhyngddynt.

Pecyn gwaith 4.1: Cynhyrchedd, Cyfranogiad Cymdeithasol a Phobl Hŷn

Chwefror 2015 – Ionawr 2017

Martin Hyde (Prifysgol Manceinion),

Martijn Hogerbrugge ac Ian Rees Jones (Prifysgol Caerdydd)

Mae'r prosiect hwn yn ymgymryd â rhaglen o ddadansoddi data meintiol, gan edrych o safbwynt heneiddio, i fynd i'r afael ag effeithiau globaleiddio, a'r ymateb iddo, ar gyfer cymdeithas sifil a chyfranogiad cymdeithasol ar lefel genedlaethol a lleol.

Pecyn gwaith 4.2: Trosglwyddo Cyfalaf rhwng Cenedlaethau yng Nghymru: Iaith, Crefydd a Chymuned

Ionawr 2016 – Medi 2017

Chris Taylor, Sally Power a Kate Moles (Prifysgol Caerdydd)

Bydd y prosiect hwn yn defnyddio dulliau cymysg i archwilio dosbarthiad a phenderfyniadau trosglwyddo iaith, crefydd a chydlyniant cymunedol yng Nghymru rhwng cenedlaethau.



Pecyn gwaith 4.3: Heneiddio, Hamdden Difrifol a Chyfraniad yr Economi Lwyd

Ebrill 2016 – Mawrth 2018

Jesse Heley, Laura Jones (Prifysgol Aberystwyth) a
Paul Milbourne (Prifysgol Caerdydd)

Mae'r prosiect hwn yn defnyddio dulliau cymysg i archwilio budd 'hamdden difrifol' ar ôl ymddeol i'r unigolyn ac ar gyfer y cymunedau ehangach y maent yn rhan ohonynt.

Pecyn gwaith 4.4: Cyfalaf Cymdeithasol a Diwylliannol pobl hŷn

Ionawr 2017 – Rhagfyr 2018

Martina Feilzer (Prifysgol Bangor) ac
Ian Rees Jones (Prifysgol Caerdydd)

Mae'r prosiect hwn yn archwilio effaith heneiddio a pherthynas rhwng cenedlaethau ar gyfranogiad mewn cymdeithas sifil drwy lygad y lle ble mae trosedd yn digwydd yng nghwrs bywyd.

Pecyn gwaith 4.5: Cyfranogiad Teidiau a Neiniau yn y Blynnyddoedd Cynnar: Cymhariaeth Ddaearyddol

Ionawr 2016 – Rhagfyr 2016

Chris Taylor (Prifysgol Caerdydd)

Bydd y prosiect hwn yn gwneud dadansoddiad manwl o'r effaith bosibl y gallai neiniau a theidiau ei chael ar ddatblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol eu hwyrion a'u hwyresau



 Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru
Prifysgol Caerdydd
46 Plas-y-Parc
Caerdydd
CF10 3BB

 Ffôn: 029 2087 9338

 www.wiserd.ac.uk

 @WISERDNews

 facebook.com/wiserdnews

Mae WISERD yn fenter gydweithredol rhwng prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe.